# ***HYSBYSIAD ENGHRAIFFT***

Rhaid arddangos yr hysbysiad ar y safle am gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu perthnasol. Rhaid arddangos yr hysbysiad, ym mhob achos, yn amlwg yn neu ar y safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef lle gellir ei ddarllen yn gyfleus o du allan y safle, ac yn achos safle sy'n cwmpasu ardal o fwy na hanner cant metr sgwâr, rhaid arddangos hysbysiad pellach yn yr un ffurf ac yn amodol ar yr un gofynion bob hanner cant metr ar hyd perimedr allanol y safle sy'n ffinio ag unrhyw brifforddd;

Rhaid cyhoeddi'r Hysbysiad yn y Papur Newydd Lleol o leiaf unwaith o fewn 10 diwrnod gwaith gan ddechrau'r diwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud i'r Awdurdod Trwyddedu.

Rhaid i'r Hysbysiad i'w arddangos ar y safle fod: o faint sy'n hafal i neu'n fwy na A4, o liw glas golau, wedi'i argraffu'n ddarllenadwy mewn inc du neu wedi'i deipio mewn du mewn ffont o faint sy'n hafal i neu'n fwy na 16;

**Gellir gweld enghraifft o eiriad hysbysiad isod:-**

Mae Lazthai Ltd yn gwneud cais am Drwydded Safle ar gyfer K and K Kitchens, The Kiosk, Iard y Bragdy, Stryd y Farchnad, Y Fenni

Pwrpas y Drwydded, os caiff ei rhoi, yw galluogi'r Gweithgareddau canlynol i ddigwydd: Gwerthu Alcohol ar y safle ac oddi arno ac adloniant wedi'i reoleiddio.

Gall unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau mewn perthynas â'r cais hwn wneud hynny drwy ysgrifennu at yr Adran Drwyddedu, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga. Gellir gwneud sylwadau 28 diwrnod yn olynol o ddyddiad yr hysbysiad hwn.

Cedwir copi o'r cais am roi'r drwydded uchod gan yr Adran Drwyddedu. Gellir gweld y cais o ddydd Llun i ddydd Iau 9am i 5pm a dydd Gwener 9am i 4.30pm ac eithrio diwrnodau Gŵyl y Banc yn Hybiau'r Cyngor/Neuadd y Sir, Brynbuga drwy drefniant ymlaen llaw yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod. Mae copi o'r cais hefyd ar gael i'w weld ar-lein www.monmouthshire.gov.uk

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid mewn cysylltiad â chais. Mae'r ddirwy y mae person yn atebol amdani ar gollfarn ddiannod am y drosedd yn ddiderfyn.

Dyddiad: 8fed Gorffennaf 2025

O.N. **Rhaid** i ddyddiad yr Hysbysiad hwn fod y diwrnod ar ôl i'r cais gael ei roi'n gywir i'r Awdurdod Trwyddedu.